

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### Cynnwys Contents

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth  
Questions to the Minister for Economic Development and Transport .....1

Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau Heblaw am Fusnes  
Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business .....3

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth Questions to the Minister for Economic Development and Transport

### Manteisio ar Fand Eang The Take-up of Broadband

**Q11 Gwenda Thomas:** Will the Minister make a statement on what he is doing to encourage broadband take-up in Wales? OAQ0183(EDT) *Transferred for written answer.*

**The Minister for Economic Development and Transport (Andrew Davies):** The demand stimulation marketing campaign continues to progress. Assembly Government-commissioned research shows that this work has been reflected in greater take up levels, which now stand at 17 per cent of the total Welsh population compared with the previous survey, which showed take-up at 11 per cent at speeds of 512 Kbps or higher.

**C11 Gwenda Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn mae'n ei wneud i annog pobl i fanteisio ar fand eang yng Nghymru? OAQ0183(EDT) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Mae'r ymgyrch farchnata i geisio annog pobl i fanteisio ar fand eang yn parhau. Mae ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn dangos bod y gwaith hwn wedi golygu bod mwy o bobl yn manteisio ar fand eang, ac mae'r nifer ar hyn o bryd wedi cyrraedd 17 y cant o boblogaeth Cymru o gymharu ag arolwg blaenorol a oedd yn dangos mai 11 y cant oedd â chyfleuster band eang sy'n gweithio ar gyflymder o 512 Kbps neu'n uwch.

*Atebwyd cwestiwn 12, OAQ0191(EDT), yn y Cyfarfod Llawn.*

*Question 12, OAQ0191(EDT), was answered in Plenary.*

### Cyfraddau Anweithgarwch Economaidd Economic Inactivity Rates

**Q13 Mark Isherwood:** Will the Minister make a statement on economic inactivity rates? OAQ0169(EDT)

**C13 Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfraddau anweithgarwch economaidd?

OAQ0169(EDT)

**Andrew Davies:** According to the Labour Force Survey, the economic inactivity rate in Wales for the period December 2004 to February 2005 was 24.2 per cent of the working age population—1.4 percentage points lower than the rate at the start of the Assembly.

**Andrew Davies:** Yn ôl yr Arolwg o'r Llafurlu, y gyfradd anweithgarwch economaidd ar gyfer Cymru rhwng Rhagfyr 2004 a Chwefror 2005 oedd 24.2 y cant o'r boblogaeth oed gweithio—1.4 y cant yn is na'r gyfradd pan ddaeth y Cynulliad i rym.

### **Diweithdra ymhlith yr Ifanc Youth Unemployment**

**Q14 Brynle Williams:** Will the Minister make a statement on youth employment levels in Wales? OAQ0146(EDT)

**C14 Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefelau cyflogaeth pobl ifanc yng Nghymru? OAQ0146(EDT)

**Andrew Davies:** According to the Labour Force Survey, there were 199,000 16 to 24-year-olds in employment in Wales over the period December 2004 to February 2005—an increase of 25,000 (or 15 per cent) compared with the same period of 1999.

**Andrew Davies:** Yn ôl yr Arolwg o'r Llafurlu, yr oedd 199,000 o bobl rhwng 16 a 24 oed mewn gwaith yng Nghymru rhwng Rhagfyr 2004 a Chwefror 2005—cynnydd o 25,000 (neu 15 y cant) o gymharu â'r un cyfnod yn 1999.

### **Cynhyrchu Ynni Energy Production**

**Q15 David Lloyd:** Will the Minister make a statement on energy production in Wales? OAQ0194(EDT)

**C15 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefelau cynhyrchu ynni yng Nghymru? OAQ0194(EDT)

**Andrew Davies:** In 2003, Wales generated 27,517 GWh of electricity—7.5 per cent of UK generation. Of this, 7,116 GWh came from coal, 10,876 GWh from gas, 7,291 GWh from nuclear and 781 GWh from renewables. Wales consumes 6.5 per cent of UK electricity, making us a net exporter, although we import electricity in the south.

**Andrew Davies:** Yn 2003, cynhyrchodd Cymru 27,517 GWh o drydan—7.5 y cant o'r trydan a gynhyrchir yn y DU. O'r cyfanswm hwnnw, daeth 7,116 GWh o lo, 10,876 GWh o nwy, a 7,291 GWh o ffynonellau niwclear a 781 GWh o ffynonellau adnewyddadwy. Mae Cymru yn defnyddio 6.5 y cant o drydan y DU, sy'n golygu ein bod yn allforio trydan o ran y cyfanswm net a gynhyrchir, er ein bod yn mewnfario trydan yn y De.

**Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau Heblaw am Fusnes**  
**Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business**

**Cydlynu Gwasanaethau Plant**  
**The Co-ordination of Children's Services**

**Q12 Jocelyn Davies:** In relation to her role as Minister for children, what recent discussions has the Minister had with regard to the co-ordination of children's services in Wales? OAQ0028(BM) *Transferred for written answer.*

**C12 Jocelyn Davies:** Ac ystyried ei rôl fel Gweinidog dros blant, pa drafodaethau diweddar a gafodd y Gweinidog ynghylch cydlynu gwasanaethau plant yng Nghymru? OAQ0028(BM) *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig.*

**The Business Minister (Jane Hutt):** I have met the Children's Commissioner for Wales and representatives of the Welsh Local Government Association and Children in Wales. On Monday, I chaired the Cabinet sub-committee meeting on children and young people, and I am also meeting members of the sub-committee individually.

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Cyfarfûm â Chomisiynydd Plant Cymru a chynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Phlant yng Nghymru. Ddydd Llun, yr oeddwn yn gyfrifol am gadeirio is-bwyllgor y Cabinet ar blant a phobl ifanc, ac yr wyf hefyd yn cyfarfod ag aelodau'r is-bwyllgor yn unigol.

*Atebwyd cwestiwn 13, OAQ0038(BM), yn y Cyfarfod Llawn.  
 Question 13, OAQ0038(BM), was answered in Plenary.*

**Cydlynu Gwasanaethau Plant**  
**Co-ordination of Children's Services**

**Q14 Alun Ffred Jones:** Will the Minister make a statement on her priorities with regard to the co-ordination of children's services in Wales? OAQ0027(BM) *Transferred for written answer.*

**C14 Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau o ran cydlynu gwasanaethau plant yng Nghymru? OAQ0027(BM)

**Jane Hutt:** My priority is to ensure that all Assembly Government policies for children that cover more than one portfolio are coherent and focused. These include implementation of the Children Act 2004, the national service framework for children, young people and maternity services, and development of the children's workforce.

**Jane Hutt:** Fy mlaenoriaeth i yw sicrhau bod holl bolisiau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer plant, sy'n gysylltiedig â mwy nag un portffolio, yn gydlynol ac yn eglur. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi Deddf Plant 2004 a'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer plant, pobl ifanc a'r gwasanaethau mamolaeth ar waith a datblygu'r gweithlu plant.

*Atebwyd cwestiwn 15, OAQ0043(BM), yn y Cyfarfod Llawn.  
 Question 15, OAQ0043(BM), was answered in Plenary.*